

CYFATHREBU

Cyfathrebu ar lafar

Derbyn, deall a throsglwyddo gwybodaeth syml yn rheolaidd mewn ffordd glir a chywir.

Derbyn, deall a chyfleu gwybodaeth yn rheolaidd sydd angen esboniad neu ddadansoddiad gofalus i helpu eraill i'w deall, gan roi ystyriaeth i'r hyn sydd i'w gyfathrebu a'r ffordd orau i drosglwyddo'r wybodaeth i eraill.

Derbyn, deall a chyfleu syniadau cysyniadol cymhleth neu wybodaeth gymhleth yn rheolaidd, a all fod yn hynod o fanwl, yn dechnegol neu yn arbenigol.

Cyfathrebu Ysgrifenedig

Derbyn, deall a throsglwyddo gwybodaeth syml yn achlysurol mewn ffordd glir a chywir.

Yn achlysurol derbyn, deall a chyfleu gwybodaeth sydd angen esboniad neu ddadansoddiad gofalus i helpu eraill i'w deall, gan roi ystyriaeth i'r hyn sydd i'w gyfathrebu a'r ffordd orau i drosglwyddo'r wybodaeth i eraill.

Derbyn, deall a chyfleu syniadau cysyniadol cymhleth neu wybodaeth gymhleth yn achlysurol, a all fod yn hynod o fanwl, yn dechnegol neu yn arbenigol.

GWAITH TÎM AC YSGOGI

Prif Ffocws:

Gweithio mewn tîm a chyfrannu ato.

CYSYLLTU A RHWYDWEITHIO

Cysylltu â phobl eraill bob dydd gan ddefnyddio dulliau gweithredu sy'n bod eisoes er mwyn sicrhau y lledaenir gwybodaeth ar y ffurf briodol wrth y bobl briodol ar yr adeg briodol; creu cysylltiadau er hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth yn y dyfodol.

Cymryd rhan mewn rhwydweithiau o fewn y sefydliad neu'n allanol er mwyn sicrhau y lledaenir gwybodaeth yn y ffurf briodol i'r bobl briodol ar yr adeg briodol; creu cysylltiadau er hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth yn y dyfodol.

Sefydlu, adeiladu neu arwain rhwydweithiau mewnol; cynnal cysylltiadau dros amser; sefydlu sianeli cyfathrebu ar gyfer eu hunain neu eraill eu defnyddio er mwyn trosglwyddo gwybodaeth yn brydlon; rhoi gwybod i bobl beth sy'n digwydd er mwyn cydlynu ymdrech a sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud yn effeithiol.

Sefydlu, datblygu neu arwain rhwydweithiau y tu allan i'r sefydliad er mwyn trosglwyddo gwybodaeth yn brydlon; rhoi gwybodaeth i bobl er mwyn sicrhau cydlynu ymdrech a bod gwaith yn cael ei wneud yn effeithiol.

DARPARU GWASANAETH

Prif ffocws

Delio â chysylltiadau mewnol neu allanol sy'n gofyn am wasanaeth neu sydd eisiau gwybodaeth; creu delwedd gadarnhaol o'r sefydliad trwy ymateb yn brydlon i geisiadau a chyfeirio'r defnyddiwr at yr unigolyn priodol os oes angen. Y cwsmer sy'n cysylltu fel rheol a rhan amlaf mae'n ymwneud â thasgau arferol gyda safonau neu ddulliau gweithredu penodol.

Ffocws eilaidd

Delio â chysylltiadau mewnol neu allanol lle mae'r gwasanaeth fel rheol yn cael ei ddechrau gan ddeiliad y swydd, gan weithio o fewn gweithdrefnau neu bolisiau cyffredinol y sefydliad; A / NEU deall ac archwilio anghenion y cwsmer; addasu'r gwasanaeth yn unol â hynny er mwyn sicrhau defnyddioldeb neu addasrwydd a safon y gwasanaeth.

PROSESAU GWNEUD PENDERFYNIAD

Gwneud penderfyniadau annibynnol, a all bara am beth amser ac effeithio'n bennaf ar y tîm gwaith.

Bod â rhan mewn rhai penderfyniadau ar y cyd, a fydd yn cael effaith gyfyngedig, ac a all bara am beth amser.

Darparu cyngor neu fewnbwn i gyfrannu at benderfyniadau pobl eraill, a fydd yn cael effaith gyfyngedig ac a all bara am beth amser.

CYNLLUNIO A THREFNU ADNODDAU

Gofynion ymhlyg

Cwblhau tasgau yn ôl cynllun a roddir a chydag adnoddau a bennir.

Prif ffocws

Cynllunio, blaenoriaethu a threfnu eich gwaith neu adnoddau eich hun i gyflawni amcanion y cytunwyd arnynt.

Ffocws eilaidd

O bryd i'w gilydd, cynllunio, blaenoriaethu a threfnu eu gwaith neu eu hadnoddau eu hunain ac eraill yn eu maes eu hunain yn ddyddiol, yn wythnosol neu yn fisol; cynllunio a rheoli projectau bach, gan sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau; derbyn gwybodaeth gan a chyflenwi gwybodaeth i bobl eraill er mwyn cwblhau eu cynllunio; monitro cynnydd yn erbyn y cynllun.

CYMHELLIANT A DATRYS PROBLEMAU

Gofynion ymhlyg

Datrys problemau arferol o ddydd i ddydd wrth iddynt godi; dewis rhwng nifer o opsiynau sydd â chanlyniadau clir trwy ddilyn canllawiau neu gyfeirio at beth sydd wedi cael ei wneud o'r blaen; gweld pryd y dylid cyfeirio problem at eraill.

Prif ffocws

Defnyddio menter a chreadigrwydd i ddatrys problemau lle nad yw'r ateb gorau yn amlwg ar unwaith ond lle mae'n rhaid asesu drwy broses o resymu, gan bwysu a mesur y rhesymau dros

ac yn erbyn gwahanol agweddau; adnabod ac asesu opsiynau ymarferol; a datgymalu'r broblem yn wahanol elfennau.

DADANSODDI AC YMCHWIL

Gofynion ymhlyg

Nodi ffeithiau sylfaenol mewn sefyllfaoedd lle mae angen ymchwiliad pellach a rhoi gwybod i eraill os oes angen.

Prif ffocws

Dadansoddi data neu wybodaeth arferol gan ddefnyddio gweithdrefnau sydd wedi'u gosod ymlaen llaw a chasglu gwybodaeth o ffynonellau safonol; gweithio'n gywir er mwyn cwblhau'r dasg yn union fel y'i pennwyd.

Ffocws eilaidd

Nodi dull priodol sydd eisoes yn bodoli ar gyfer dadansoddi neu ymchwilio yn ôl y data a'r amcanion; nodi a dehongli tueddiadau neu batrymau mewn data; nodi neu ddod o hyd i wybodaeth ychwanegol a all fod o gymorth i'r ymchwiliad wrth i'r dadansoddi fynd rhagddo.

GOFYNION SYNHWYRAIDD A CHORFFOROL

Ymgymryd â thasgau sy'n gofyn naill am feistrolaeth o amrywiaeth o dechnegau synhwyrdd neu gorfforol, canolbwyntio i gyd-drefnu gwahanol synhwyrdd neu drachywiredd wrth ddefnyddio'r sgiliau synhwyrdd hyn, neu sy'n cynnwys ymdrech sylweddol.

AMGYLCHEDD GWAITH

Prif ffocws

Gweithio mewn amgylchedd sy'n gymharol sefydlog ac sy'n cael ychydig o effaith ar ddeiliad y swydd neu'r ffordd y caiff y gwaith ei wneud.

Ffocws eilaidd

Yn achlysurol bydd angen i ddeiliad y swydd ddeall sut y gall yr amgylchedd gwaith effeithio ar eu gwaith eu hunain a gwaith cydweithwyr gan weithredu, o fewn canllawiau iechyd a diogelwch lle bo'n briodol, i ymaddasu i'r amgylchedd.

GOFAL A LLES BUGEILIOL

Bydd angen i ddeiliad y swydd ddangos sensitifrwydd yn rheolaidd tuag at rai sydd efallai angen help neu, mewn achosion eithriadol, sy'n amlwg wedi cynhyrfu; dylid gweithredu'n briodol drwy gynnwys y bobl berthnasol.

O bryd i'w gilydd, rhoi cyngor ar faterion lles neu ymholiadau cyffredin; dilyn gweithdrefnau lles safonol ar gyfer y sefydliad; gwybod pryd y dylid cyfeirio unigolyn at rywun arall i gael cymorth proffesiynol; a pharchu cyfrinachedd.

DATBLYGU TÎM

(dylid cynnwys hyfforddi rhai y tu allan i dîm y gwaith o dan Cefnogaeth Addysgu a Dysgu)

O bryd i'w gilydd bydd angen cynghori neu arwain gweithwyr newydd sy'n gweithio yn yr un swydd neu uned ynglŷn â gwybodaeth neu weithdrefnau safonol.

O bryd i'w gilydd, hyfforddi neu arwain pobl eraill ynglŷn â thasgau, materion neu weithgareddau penodol; rhoi cyngor, arweiniad ac adborth ar sail eu gwybodaeth neu eu profiad eu hunain; cyflwyno hyfforddiant.

CEFNOGAETH ADDYSGU A DYSGU

Datblygu dulliau blaengar mewn perthynas â'r profiad dysgu a'r cwricwlwm; sefydlu cynnwys a methodoleg i gyflwyno gwybodaeth neu weithdrefnau safonol i fyfyrwyr neu bobl eraill sy'n newydd i'r maes.

Datblygu dulliau blaengar mewn perthynas â'r profiad dysgu a'r cwricwlwm; sefydlu cynnwys a methodoleg i addysgu neu hyfforddi myfyrwyr neu bobl eraill ar dasgau, materion neu weithgareddau penodol; asesu perfformiad a darparu adborth yn ystod y digwyddiad.

Cynllunio cynnwys neu ddeunyddiau dysgu o fewn fframweithiau presennol; gwneud addasiadau priodol i ddeunyddiau presennol ar sail gwybodaeth neu brofiad y dysgwyr/dysgwyr i ddysgu, hyfforddi neu hwyluso gweithgareddau datblygu i unigolion neu grwpiau ar agweddau neu bynciau arbennig disgyblaeth neu arbenigedd academaidd penodol; monitro perfformiad gan roi adborth ac arweiniad yn ôl y gofyn a gweithredu fel catalydd i ddatblygiad neu ddysgu pellach.

Cynllunio cynnwys neu ddeunyddiau dysgu o fewn fframweithiau presennol; gwneud addasiadau priodol i ddeunyddiau presennol ar sail gwybodaeth neu brofiad y dysgwyr/dysgwyr i gyflwyno ystod o weithgareddau addysgu neu ddatblygu o fewn disgyblaeth neu arbenigedd academaidd penodol, gan addysgu ar draws ehangder neu ddyfnder y pwnc; herio syniadau a meithrin trafodaeth; annog datblygiad rhesymu a chywirdeb deallusol.

GWYBODAETH A PHROFIAD

Cael eu cydnabod yn awdurdod yn eu maes neu arbenigedd o fewn y sefydliad neu ymysg cyfoedion allanol, ar sail arbenigedd amlwg; ffurfio a dylanwadu ar ddatblygiadau o fewn y sefydliad drwy eu cyfraniad i'w maes arbenigedd.